Y PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL
AR WASANAETHAU MAMOLAETH
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

# RHAGLEN ADOLYGIADAU CLINIGOL

1. Byddwch yn cael llythyr i roi gwybod ichi fod eich gofal chi a gofal eich babi yn cael ei adolygu fel rhan o'r rhaglen adolygiadau clinigol.





2. Byddwch yn cael cyfle i rannu eich stori a holi unrhyw gwestiynau am eich gofal. Cewch gefnogaeth gan eiriolwr o'r Cyngor Iechyd Cymuned os ydych yn dymuno.




3. Bydd eich stori yn cael ei hanfon at y timau adolygiadau clinigol ynghyd â'ch nodiadau clinigol chi a'ch baban ac unrhyw wybodaeth o adolygiadau gan y bwrdd iechyd neu ymchwiliadau lleol eraill.




4. Bydd aelodau'r tîm adolygiadau clinigol yn adolygu eich nodiadau yn unigol ac yn cwblhau offeryn a gytunwyd i'w helpu i edrych ar yr hyn a wnaed yn gywir a beth y gellir bod wedi'i wneud yn well.




5. Yna bydd aelodau'r tîm adolygiadau clinigol yn eich cyfarfod i drafod y gofal a ddarperir i chi a'ch baban/babanod. Ar y cyd, byddant yn cwblhau adroddiad o'u canfyddiadau.




6. Yna, bydd yr adroddiad am y canfyddiadau yn mynd drwy broses sicrwydd ansawdd i sicrhau bod popeth posibl wedi'i ddysgu.




7. Yn dilyn y broses sicrwydd ansawdd, bydd yr adolygiad o'ch gofal yn cael ei drafod gyda'r bwrdd iechyd i sicrhau eich bod wedi cael yr adborth cywir ac unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol hyd yma.




8. Byddwch yn cael llythyr sy'n manylu ar ganfyddiadau eich adolygiad a pha gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd, os o gwbl.





9. Bydd yr hyn a ddysgwyd o'ch adolygiad ac o adolygiadau gofal mamau, eu teuluoedd a babanod eraill yn cael eu cyfuno mewn adroddiad terfynol i adnabod themâu allweddo




10. Gwneir argymhellion i'r bwrdd iechyd ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud i wella eu gwasanaethau yn y dyfodol.




11. Bydd eich stori (ddienw) hefyd yn cael ei defnyddio fel rhan o addysg mamolaeth yn y dyfodol, trwy fideos hyfforddiant a dulliau hyfforddi eraill.




12. Bydd yr adroddiad terfynol a'ch stori yn cael eu defnyddio i gynllunio ar gyfer camau nesaf y rhaglen adolygiadau clinigol.

